**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**ATODLEN CYDNABYDDIAETH ARIANNOL AELODAU 2022/23**

Gyda chymeradwyo'r Mesur Llywodraeth Leol 2011, mae pwerau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (y Panel) wedi eu hymestyn fel bod ei fframwaith cenedlaethol yn cynnwys taliadau i Aelodau Awdurdodau Tân ac Achub. Mae cynllun cydnabyddiaeth ariannol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi ei osod yn unol â phenderfyniadau'r Panel.

1 Bydd y Cynllun hwn yn dod i rym ar 20 Mehefin 2022.

2 Yn y Cynllun hwn:

- ystyr "yr Awdurdod" ac "ATA" yw Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru;
- ystyr "Aelod" yw Aelod o Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru;
- ystyr "aelod annibynnol/cyfetholedig" yw rhywun, heblaw am Aelod o'r Awdurdod, a benodir i wasanaethu ar Bwyllgor Safonau'r Awdurdod (yn unol â Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001) a wnaed o dan Adran 53, Deddf Llywodraeth Leol 2000;
- aelodau'r "Grŵp Gweithredol" yw'r Prif Swyddog Tân, Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol a'r Prif Swyddogion Cynorthwyol;
- ystyr "Rheoliadau" yw Rheoliadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ar gyfer rhoi cydnabyddiaeth ariannol i aelodau ac aelodau cyfetholedig awdurdodau perthnasol;
- ystyr "blwyddyn" yw'r 12 mis sy'n gorffen ar 31 Mawrth.

**3 Cyflog Sylfaenol**

3.1 Bydd Cyflog Sylfaenol yn cael ei dalu i bob Aelod etholedig o'r Awdurdod.

3.2 Yn unol â'r Rheoliadau, bydd cyfradd y Cyflog Sylfaenol yn cael ei hadolygu bob blwyddyn fel y penderfynir gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

3.3 Lle mae cyfnod swydd Aelod yn dechrau neu'n gorffen heblaw am ar ddechrau neu ddiwedd blwyddyn, bydd ei hawl ef / hi i gael y Cyflog Sylfaenol ar un sydd ar sail pro-rata.

3.4 Nid oes mwy nag un Cyflog Sylfaenol yn daladwy i Aelod o'r Awdurdod.

3.5 Ni all Aelod o'r Awdurdod sydd yn derbyn Uwch Gyflog Lefel 1 (Arweinydd/Dirprwy Arweinydd) neu Lefel 2 (Aelodau Gweithredol) mewn cyngor cyfansoddol dderbyn cyflog sylfaenol o unrhyw Awdurdod Parc Cenedlaethol nac Awdurdod Tân ac Achub y mae hefyd wedi cael ei (h)enwebu iddo.

**4 Uwch Gyflogau a Chyflogau Dinesig**

4.1 Bydd Aelodau mewn swyddi penodol yn cael Uwch Gyflog.

4.2 Yn unol â'r Rheoliadau, bydd cyfraddau'r Uwch Gyflogau yn cael eu hadolygu'n flynyddol fel y pennir gan Adroddiad Blynyddol neu Atodol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

4.3 Dim ond un Uwch Gyflog neu Gyflog Ddinesig sy'n daladwy i Aelod o'r Awdurdod.

4.4 Ni all Aelod o'r Awdurdod gael Uwch Gyflog a Chyflog Ddinesig.

4.5 Mae pob Uwch Gyflog a Chyflog Ddinesig yn cynnwys y Cyflog Sylfaenol.

4.6 Ni chaiff Uwch Gyflog ei dalu i fwy na nifer yr aelodau a bennir gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn ei Adroddiad Blynyddol ac ni all fod yn fwy na hanner cant y cant o gyfanswm aelodaeth yr awdurdod, ac eithrio i gynnwys deiliad swydd Uwch Gyflog dros dro sy'n cyflenwi ar gyfer absenoldeb teuluol y deiliad swydd a benodwyd.

4.7 Ni all Aelod o'r Awdurdod sy'n derbyn Uwch Gyflog Lefel 1 (Arweinydd/Dirprwy Arweinydd) neu Lefel 2 (Aelodau Gweithredol) mewn cyngor cyfansoddol dderbyn cyflog uwch o unrhyw awdurdod parc cenedlaethol nac awdurdod tân ac achub y mae hefyd wedi cael ei (h)enwebu iddo.

4.8 Pan fo tymor Aelod sy'n derbyn Uwch Gyflog neu Gyflog Ddinesig yn dechrau neu'n gorffen ar adeg heblaw am ddechrau neu ddiwedd blwyddyn, bydd ei hawl ef/hi i Gyflog ar sail pro-rata.

## 5 Ymwrthod

5.1 Gall Aelod ymwrthod â rhan neu'r cyfan o'r Cyflog Sylfaenol a/neu Uwch Gyflog. Rhaid ymwrthod yn ysgrifenedig i Glerc yr Awdurdod Tân ac Achub, a rhaid nodi dyddiad yr ymwrthodiad. Gellir diddymu hysbysiad o ymwrthodiad ar unrhyw adeg trwy anfon hysbysiad ysgrifenedig pellach at y Clerc. Ni ellir ôl-ddyddio unrhyw ddiddymiad o ddyddiad yr hysbysiad pellach.

## 6 Atal Aelod Dros Dro

6.1 Pan fo Aelod o'r Awdurdod yn cael ei atal dros dro, yn llwyr neu'n rhannol, o'i gyfrifoldebau neu ddyletswyddau fel Aelod o'r Awdurdod yn unol â Rhan III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (Ymddygiad Aelodau), neu reoliadau a wnaed o dan y Ddeddf, bydd rhan y Cyflog Sylfaenol sy'n daladwy iddo / iddi mewn perthynas â'r cyfnod y mae ef neu hi yn cael ei atal yn cael ei ddal yn ôl gan yr Awdurdod (Adran 155 (1) o'r Mesur).

6.2 Pan fo Aelod sy'n derbyn Uwch Gyflog yn cael ei atal dros dro, yn llwyr neu'n rhannol, rhag bod yn Aelod o'r Awdurdod yn unol â Rhan III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (Ymddygiad Aelodau), neu reoliadau a wnaed o dan y Ddeddf, rhaid i'r Awdurdod beidio â gwneud taliadau Uwch Gyflog i'r Aelod drwy gydol y cyfnod y caiff yr Aelod ei atal (Adran 155 (1) o'r Mesur). Os yw'r atal rhannol yn ymwneud â'r elfen cyfrifoldeb penodol o'r taliad yn unig, gall yr Aelod gadw'r Cyflog Sylfaenol.

## 7 Ad-dalu cyflogau, lwfansau neu ffioedd

7.1 Pan fo taliad unrhyw gyflog, lwfans neu ffi wedi cael ei wneud i Aelod o'r Awdurdod neu Aelod Cyfetholedig mewn perthynas ag unrhyw gyfnod pan fydd yr Aelod dan sylw:

(a) wedi'i atal / hatal neu ei atal / hatal dros dro o ddyletswyddau neu gyfrifoldebau Aelod / Aelod Cyfetholedig yn unol â Rhan 3 o Ddeddf 2000 neu reoliadau a wnaed o dan y Ddeddf honno
(b) yn peidio â bod yn Aelod o'r Awdurdod neu'n Aelod Cyfetholedig; neu
(c) mewn unrhyw ffordd arall heb yr hawl i dderbyn cyflog, lwfans neu ffi mewn cysylltiad â'r cyfnod hwnnw,

bydd yr Awdurdod yn ei wneud yn ofynnol bod y cyfryw ran o'r lwfans sy'n ymwneud ag unrhyw gyfnod o'r fath yn cael ei had-dalu.

7.2 Telir cyflogau sylfaenol ac uwch gyflogau mewn rhandaliadau misol; telir ffioedd, lwfans gofal a chostau teithio a chynhaliaeth fel ôl-daliadau. Mae'r holl daliadau yn agored i Dreth Incwm a chyfraniadau Yswiriant Gwladol, pan fo hynny'n berthnasol.

## 8 Cydnabyddiaeth Ariannol i Aelodau

8.1 Mae cyflog sylfaenol ATA yn daladwy i bob Aelod fel y dangosir yn Atodiad 1.

## 9 Cydnabyddiaeth Ariannol i Gadeirydd, Dirprwy Gadeirydd a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio

9.1 Bydd yr Aelodau a enwir sy'n dal swyddi Cadeirydd, Dirprwy Gadeirydd a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio yn derbyn yr uwch gyflogau a ddangosir yn Atodiad 1.

## 10 Ffi Aelodau Annibynnol/Aelodau Cyfetholedig

10.1 Bydd aelodau annibynnol/cyfetholedig o'r Pwyllgor Safonau a enwir yn derbyn ffi fel y nodir yn Atodiad 1.

10.2 Mae taliadau i aelodau cyfetholedig wedi eu capio ar daliad sy'n gyfwerth â 4 diwrnod llawn y flwyddyn yr un. Y diffiniad o gyfarfod hanner diwrnod yw hyd at 4 awr. Y diffiniad o gyfarfod diwrnod llaw yw mwy na 4 awr.

10.3 Mae amser rhesymol i baratoi cyn cyfarfodydd yn gymwys i'w gynnwys mewn hawliadau a wneir gan aelodau cyfetholedig. Y Clerc/Swyddog Monitro fydd yn penderfynu faint o amser a bennir yn rhesymol cyn y cyfarfod.

10.4 Gellir cynnwys amser teithio i'r cyfarfod ac oddi yno yn yr hawliadau am daliadau a wneir gan aelodau cyfetholedig (hyd at uchafswm y gyfradd ddyddiol).

10.5 Bydd y Clerc/Swyddog Monitro yn pennu ymlaen llaw a yw cyfarfod wedi'i drefnu ar gyfer diwrnod llawn a thelir ffi ar sail y penderfyniad hwn, hyd yn oed os yw'r cyfarfod yn gorffen cyn diwedd pedair awr.

10.6 Mae cyfarfodydd sy'n gymwys am daliad ffi yn cynnwys pwyllgorau a gweithgorau eraill (gan gynnwys grwpiau gorchwyl a gorffen), cyfarfodydd rhagarweiniol gyda swyddogion, hyfforddiant a phresenoldeb mewn cynadleddau neu unrhyw gyfarfod ffurfiol arall y mae gofyn i aelodau cyfetholedig eu mynychu.

10.7 Telir y ffi fel ôl-daliad wedi'r dyddiad y cynhelir y cyfarfod hwnnw. Mae'r ffioedd yn agored i Dreth Incwm a chyfraniadau Yswiriant Gwladol pan fo hynny'n briodol.

## 11 Lwfans Gofal

11.1 Bydd yr ATA yn cyfrannu tuag at gostau angenrheidiol ar gyfer gofal a roddir gan ofalwyr anffurfiol neu ffurfiol ar gyfer:

a) gofal am ddibynnydd o dan 16 oed, neu
b) plentyn neu oedolyn sydd fel arfer yn byw gyda'r Aelod fel rhan o'i deulu ac na ellir ei adael heb oruchwyliaeth, ac
c) ar gyfer anghenion cymorth personol yr Aelod lle nad yw'r gefnogaeth a/neu'r gost o unrhyw anghenion ychwanegol ar gael neu ddim yn cael eu darparu gan yr Awdurdod yn uniongyrchol.

11.2 Gellir hawlio'r swm a nodir isod. Ni ellir talu costau gofal i rywun sy'n aelod o aelwyd yr aelod

a) Costau gofal ffurfiol (wedi'i gofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru) I'w talu yn unol â'r dystiolaeth.
b) Costau gofal anffurfiol (anghofrestredig) i'w talu hyd at y gyfradd uchaf sy'n gyfwerth â Chyflog Byw Gwirioneddol yn y DU ar yr adeg y cafwyd y costau.

11.3 Rhaid i'r ad-daliad fod am y costau ychwanegol a gafwyd gan aelodau er mwyn iddynt gyflawni eu dyletswyddau cymeradwy. Os oes gan Aelod neu Aelod Cyfetholedig fwy nag un dibynnydd gall yr Aelod hawlio mwy nag un lwfans, ar yr amod y gall yr Aelod ddangos bod angen gwneud trefniadau ar wahân ar gyfer gofal.

11.4 Gall Aelodau cymwys hawlio ad-daliad costau gofal ar gyfer costau gwirioneddol gyda derbynneb hyd at uchafswm nad yw'n rhagori ar hwnnw a bennwyd gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol fel y nodir yn Atodiad 1. Dylid cyflwyno pob hawliad am ad-dalu costau gofal yn ysgrifenedig i'r Swyddog Cyswllt Aelodau gan nodi amseroedd, dyddiadau a'r rhesymau dros hawlio. Gwneir ad-daliad ar gyfer trefniadau gofal ffurfiol neu anffurfiol pan gaiff derbyniadau eu cyflwyno.

## 12 Teithio a Chynhaliaeth

12.1 Telir costau teithio a chynhaliaeth am y dyletswyddau swyddogol a gyflawnir gan Aelod neu Aelod annibynnol/cyfetholedig fel y dangosir yn Atodiad 3, ac fel y diwygir o dro i dro gan yr Awdurdod.

12.2 Bydd y symiau y gall Aelodau neu Aelodau annibynnol/cyfetholedig eu hawlio am gostau teithio a chynhaliaeth yn unol â'r graddfeydd a fabwysiedir gan y Panel, fel y dangosir yn Atodiad 2. Er mwyn hawlio costau cynhaliaeth, rhaid i Aelodau fod i ffwrdd o gartref am gyfnod o bum awr neu fwy yn unol â rheolau Cyllid a Thollau EM.

12.3 Mae cyfradd cynhaliaeth o £28 dros gyfnod 24-awr ar gael, gan gynnwys brecwast os nad yw'n rhan o'r llety dros nos. Mae hyn yn ad-daliad o gostau gwirioneddol ar gyfer dyletswyddau swyddogol, ac mae angen darparu derbynebau eitemedig. Rhaid i hawliadau am gostau cynhaliaeth fod yn rhesymol ac o fewn yr amser a bennwyd yn Atodiad 2. Pan ddarperir prydau bwyd, ni fydd costau cynhaliaeth yn cael eu talu.

12.4 Mae angen derbynebau TAW go iawn ar gyfer treuliau, gan gynnwys tocynnau parcio, er mwyn i'r Awdurdod ddilysu ceisiadau a chael y TAW yn ôl. Dylai Aelodau ofyn am y rhain a'u cadw, a'u hamgáu gyda'u ffurflenni cais am gostau. Gallai peidio â chyflenwi derbynneb arwain at beidio â thalu hawliad a/neu fethu ag ad-dalu'r elfen TAW.

12.5 Bydd yr Awdurdod yn ad-dalu gwir gostau tocynnau trên dosbarth cyffredin neu'r rhai rhataf tebyg.

12.6 Pan fydd Aelodau'n teithio gyda thrên, rhaid iddynt yn y lle cyntaf gysylltu â'r Swyddog Cyswllt Aelodau a fydd yn cael y tocyn am y pris mwyaf darbodus, gan gynnwys defnyddio cardiau disgownt o wahanol fathau. Os oes raid i'r Aelodau brynu eu tocynnau trên eu hunain, dylent gyflwyno'r dderbynneb neu'r tocyn pan fyddant yn hawlio ad-daliad, a phan fo'n briodol, ddefnyddio cardiau disgownt o unrhyw fath.

12.6 Caiff teithio gyda thrafnidiaeth gyhoeddus ei annog ar gyfer teithiau pell, ond gellir teithio mewn car preifat pan fo hyn yn gynt. Bydd yr Awdurdod yn talu'r raddfa filltiroedd car briodol a ddangosir yn Atodiad 2 nad yw'n uwch na swm sy'n gyfwerth â thocyn trên dosbarth cyffredin oni bai fod defnyddio'r car am yr holl daith wedi cael ei gymeradwyo gan aelod o'r Grŵp Gweithredol.

12.8 Gellir hawlio cost tacsi pan fo raid teithio AR FRYS neu pan nad oes trafnidiaeth gyhoeddus addas ar gael. Dylid cyflwyno derbynebau.

**13 Cyfyngiadau Amser ar Hawliadau**

13.1 Caiff taliadau Cyflogau Sylfaenol ac Uwch Gyflogau eu hymgorffori yn y system gyflogau misol, a chânt eu talu'n awtomatig trwy drosglwyddiad Credyd Banc heb eisiau i'r Aelodau i weithredu, a hynny ar y 18fed o bob mis neu'r diwrnod bancio agosaf.

13.2 Caiff lwfansau teithio a chynhaliaeth, ynghyd a lwfansau gofal (pan fo hynny'n briodol), a hawliwyd am y mis cynt, eu hychwanegu at y taliadau yma. Dylid cyflwyno hawliadau ar y ffurflen briodol i'r Swyddog Cyswllt Aelodau erbyn y 1af o bob mis.

13.3 Mae'n rhaid cyflwyno hawliadau o fewn tri mis i ddiwedd y mis perthnasol. Mae'n bosib i'r Trysorydd, wedi ymgynghori â Chadeirydd yr Awdurdod, dderbyn cais hwyr am reswm da, a gwneud y taliadau perthnasol.

## 14 Ceisiadau Deuol

14.1 Pan fo Aelod o'r Awdurdod hefyd yn gallu hawlio lwfansau fel Aelod o Awdurdod arall, ni all yr Aelod hwnnw dderbyn unrhyw lwfans, gan gynnwys lwfans teithio, cynhaliaeth a gofal, gan fwy nag un Awdurdod am yr un dyletswyddau.

14.2 Mae'n rhaid i Aelodau sy'n cyflawni dyletswyddau ar gyfer Awdurdod Lleol arall ar yr un diwrnod sicrhau bod y teithio a'r amser teithio, ynghyd â lwfansau gofal (lle bo hynny'n briodol), yn cael eu dosrannu'n rhesymol rhwng yr awdurdodau sy'n eu talu.

## 15 Hawliad Rhan o Flwyddyn

15.1 Bydd darpariaethau'r paragraff hwn yn rheoleiddio'r hawliadau i gyflog sylfaenol neu uwch gyflog fel y bo'n briodol i Aelod pryd, yn ystod blwyddyn, y:

(a) Caiff y Cynllun hwn ei ddiwygio; neu
(b) Bydd y person hwnnw yn dod neu'n peidio â bod yn Aelod neu'n Aelod annibynnol/cyfetholedig; neu
(c) Bydd Aelod yn dod neu'n peidio â bod yn Gadeirydd neu'n Ddirprwy Gadeirydd.

15.2 Pan fo paragraff 15.1 yn berthnasol, bydd yr hawl i lwfansau'n cael ei addasu'n ddyddiol yn unol â'r Rheoliadau.

## 16 Gweinyddu

16.1 Bydd y Trysorydd i'r Awdurdod yn cadw, ar ran yr Awdurdod, gofnod o'r holl daliadau a wneir dan y Cynllun hwn, a fydd yn nodi, am bob taliad, enw'r derbynnydd a swm a natur y taliad.

16.2 Bydd y cofnod hwn ar gael ar bob adeg resymol i'w archwilio'n ddi-dâl gan etholwyr llywodraeth leol yn yr Awdurdodau cyfansoddol. Darperir copïau ar gais am ffi resymol a benderfynir gan y Trysorydd.

16.3 Gwneir trefniadau'n flynyddol i gyhoeddi'r taliadau a wnaed yn y flwyddyn ariannol flaenorol i Aelodau o safbwynt y Cyflogau Sylfaenol a'r Uwch Gyflogau a delir, y ffioedd dyddiol a delir i aelodau annibynnol/cyfetholedig a Lwfansau Gofal a chostau teithio a chynhaliaeth.

## 17 Datganiadau Pellach

17.1 Cedwir cofnod o bresenoldeb aelodau mewn cyfarfodydd, ac fe'u cedwir ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub.

**18 Pensiynau**

18.1 Bydd yr Awdurdod yn galluogi ei Aelodau sy'n gymwys i ymuno â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

**19 Cydymffurfiaeth**

19.1 Yn unol â'r Rheoliadau, rhaid i'r Awdurdod gydymffurfio â gofynion Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol mewn perthynas â monitro a chyhoeddi taliadau a wnaed i Aelodau ac Aelodau Cyfetholedig.

**Atgoffir Aelodau ac Aelodau Cyfetholedig bod ceisiadau am dreuliau yn destun archwilio mewnol ac allanol.**

Am wybodaeth bellach, cysylltwch â'r Gwasanaethau Aelodau, Pencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub, Parc Busnes Llanelwy, LL17 0JJ. Ffôn: 01745 535250.

**ATODIAD 1**

**Hawliad i Gyflog Sylfaenol**

Telir Cyflog Sylfaenol o **£2,369 y flwyddyn** i aelodau cyffredin yr ATA o 20 Mehefin 2022.

**Y Cynghorydd**
Bryan Apsley
Marion Bateman
Carol Beard
Brian Blakeley
Tina Claydon
Neil Coverley
Adele Davies-Cooke
Jeff Evans
Chrissy Gee
Alan Hughes
Chris Hughes
John Brynmor Hughes
Marc Jones
Gwynfor Owen
Beverley Parry-Jones
Arwyn Herald Roberts
Austin Roberts
Gareth A Roberts
Rondo Roberts
Paul Rogers
Gareth Sandilands
Dale Selvester
Ken Taylor
Rob Triggs
Mark Young

**Hawliad i Uwch Gyflog**
Telir Uwch Gyflog, sy'n cynnwys Cyflog Sylfaenol, i ddeiliaid y swyddi canlynol:

| | | |
|---|---|---|
| Cadeirydd yr Awdurdod Tân | Dylan Rees | **£ 11,162 y flwyddyn** |
| Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod Tân | Paul Cunningham | **£ 6,109 y flwyddyn** |
| Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio | Nigel Smith | **£ 6,109 y flwyddyn** |

Nid yw'r uchafswm ar gyfer yr uwch gyflogau yn uwch na'r hyn a osodwyd ar gyfer yr Awdurdod.

**Hawliad i Ffi Aelod Cyfetholedig**
Mae'r ffioedd canlynol i Aelodau annibynnol/cyfetholedig y Pwyllgor Safonau yn daladwy:

| | | |
|---|---|---|
| Cadeirydd | Julia Hughes | **£268 am 4 awr a mwy (£134 hyd at 4 awr)** |
| Aelodau eraill | Sally Ellis, Gill Murgatroyd a Gareth Pritchard | **£210 am 4 awr a mwy (£105 hyd at 4 awr)** |

Yn amodol ar uchafswm cyffredinol y taliad sy'n gyfwerth â ffi 4 diwrnod mewn blwyddyn.

**Ad-daliadau Costau Gofal**

Caiff pob aelod hawlio hyd at £ 403 y mis o ad-daliadau trwy gyflwyno derbynebau.

**Lwfans Teithio a Chynhaliaeth**

**1. Car Modur**

| | **Y filltir** |
|---|---|
| Lwfans milltiroedd – hyd at 10,000 o filltiroedd | **45c** |
| Lwfans milltiroedd - dros 10,000 o filltiroedd | **25c** |
| Lwfans teithiwr (rhaid bod wedi cludo teithiwr i hawlio hyn | **5c** |
| | |
| **Motobeic** – lwfans milltiroedd | **24c** |
| **Beic** - lwfans milltiroedd | **20c** |

Gellir hawlio treuliau ychwanegol am gost wirioneddol parcio

**2. Trafnidiaeth Gyhoeddus**

Gall Aelodau hawlio:

**a) Trên**

- Cost y tocyn dosbarth cyffredin isaf sydd ar gael yn rhesymol
- Costau cadw lle a chadw bagiau
- Costau mynd a dod o'r orsaf
- Costau dosbarth cyntaf arbennig pan fo'r gost yn rhesymol o'i chymharu â chost tocyn dosbarth cyffredin

**b) Bws/Coets**

- Cost y tocyn priodol
- Treuliau archebu a chadw bagiau

**3. Tacsi**

Gall Aelodau hawlio cost y daith a childwrn rhesymol pan fo angen teithio AR FRYS neu pan nad oes gwasanaeth bws ar gael yn rhwydd.

**4. Cynhaliaeth**

Gellir hawlio hyd at uchafswm o £28 dros gyfnod o 24 awr; nodir y cyfyngiadau isod:

**a) Brecwast (pan nad oes angen aros dros nos)**

Yn daladwy am absenoldeb o gartref am o leiaf 5 awr, cyn 11 y bore.

**b) Cinio**

Yn daladwy am absenoldeb o gartref am o leiaf 5 awr, gan gynnwys y cyfnod rhwng hanner dydd a 2 y prynhawn ar ei hyd.

**c) Swper gyda'r nos**

Yn daladwy am absenoldeb o gartref am o leiaf 5 awr, gan orffen wedi 7 yr hwyr.

*Mae'r uchod yn amodol ar geisiadau hawlio rhesymol gyda derbynebau wedi'u hatodi i'r ffurflenni.*

**d) Dros nos**

Gellir hawlio pan fyddwch yn absennol dros nos o'ch preswylfa arferol am dros 24 awr. Rhaid i drefniadau dros nos gael eu gwneud gan y Swyddog Cyswllt Aelodau. Dyma'r uchafsymiau am wely a brecwast:

| | |
|---|---|
| Ymweliadau â Llundain | **£200** |
| Lleoedd eraill | **£ 95** |
| Aros gyda pherthnasau/ffrindiau | **£ 30** |

**5. SUT A PHRYD I HAWLIO**

Dylid cyflwyno ceisiadau am lwfansau teithio a chynhaliaeth i'r Swyddog Cyswllt Aelodau, a rhaid iddynt ymwneud â dyletswyddau cymeradwyedig a gyflawnwyd (gweler Atodiad 1 am fanylion). Bydd ceisiadau'n cael eu talu'n uniongyrchol i gyfrifon banc yr Aelodau yn fisol.

Rhaid gwneud ceisiadau ar ffurflenni hawlio Lwfansau'r Aelodau, ac mae copïau o'r rheini ar gael gan Gwasanaethau Aelodau.

Dylid llenwi'r ffurflenni cais am bob mis calendr y cafwyd y treuliau, a'u hanfon at y Swyddog Cyswllt Aelodau **heb fod yn hwyrach na'r 1af o'r mis canlynol er mwyn sicrhau taliad yn y mis hwnnw.** Rhaid cyflwyno'r ceisiadau o fewn tri mis ar ôl diwedd y mis dan sylw. Gall y Trysorydd, wedi ymgynghori â'r Cadeirydd, dderbyn cais hwyr am reswm da a gwneud y taliadau perthnasol.

Dyma'r cyfeiriad llawn ar gyfer anfon ffurflenni cais am gostau:
**Gwasanaethau Aelodau**
**Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru**
**Pencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub**
**Ffordd Salesbury**
**Parc Busnes Llanelwy**
**LLANELWY**
**Sir Ddinbych**
**LL17 0JJ**

**ATODIAD 3**

**BUSNES SWYDDOGOL**

At ddiben Cynllun Cydnabyddiaeth Ariannol yr Awdurdod, caiff y canlynol ei ystyried yn fusnes swyddogol:

- Cyfarfodydd yr Awdurdod
- Cyfarfodydd Pwyllgorau, Panelau a Gweithgorau'r Awdurdod.
- Unrhyw gyfarfod arall a elwir gan yr Awdurdod (neu gan y Cadeirydd neu'r Dirprwy Gadeirydd mewn achosion brys) y gwahoddir yr Aelodau iddo.
- Cyfarfodydd rhwng Cadeirydd a/neu Ddirprwy Gadeirydd yr Awdurdod a Chadeiryddion a/neu Ddirprwy Gadeiryddion Pwyllgorau'r Awdurdod a/neu swyddogion yr Awdurdod neu'r Gwasanaeth neu awdurdodau neu wasanaethau tân eraill i drafod busnes yr Awdurdod, gan gynnwys at ddiben agor tendrau.
- Mynychu digwyddiadau GTAGC, pan ofynnir yn benodol i Aelodau fynychu.
- Mynychu cyfarfodydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru/y Gymdeithas Llywodraeth Leol (gan gynnwys cyfarfodydd llawn a Grwpiau Polisi) gan yr Aelodau penodedig.
- Cyfarfodydd a drefnir gan yr Awdurdod gyda Gweinidogion a/neu swyddogion y Llywodraeth ar fusnes yr Awdurdod.
- Mynychu Cynhadledd Flynyddol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru/ Cynhadledd Tân Flynyddol y Gymdeithas Llywodraeth Leol gan y Cadeirydd neu'r Dirprwy Gadeirydd neu unrhyw Aelod arall a awdurdodir yn benodol gan yr Awdurdod.
- Mynychu unrhyw gyfarfodydd, grwpiau, seminarau, cynadleddau, cyrsiau neu ymweliadau eraill ar faterion yr Awdurdod, ac, yn ddibynnol ar gymeradwyaeth yr Awdurdod o flaen llaw (neu'r Cadeirydd neu'r Dirprwy Gadeirydd mewn achosion brys), ar gyfer mynychu digwyddiadau allanol neu unigol.
- Cyfarfodydd cyrff (heblaw am y rhai a nodir uchod) y mae'r Awdurdod wedi penderfynu gwneud penodiadau neu enwebiadau arnynt.
- Cyflawni unrhyw ddyletswydd arall y mae'r Awdurdod wedi ei gymeradwyo o flaen llaw, neu unrhyw ddyletswydd o ddosbarth a gymeradwywyd, at ddiben cyflawni swyddogaethau'r Awdurdod, neu mewn cysylltiad â hynny.
- Cyfarfodydd a drefnwyd o flaen llaw trwy'r Swyddog Cyswllt Aelodau gan Aelodau i orsafoedd tân yn y Sir neu'r Fwrdeistref Sirol y maent yn Aelod ohoni.